# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 13/09/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Rhian Sanson | Gruffydd Williams | Gareth Jones | Gwynfor Jones |
| Caren Jones | Arfon Hughes | Rhys Llewelyn | Sharon Williams | Carys Roberts |
| Lleucu Jones | Alaw Llewelyn Roberts | Gito Williams | Pat Humphreys (Clerc) | |

Penderfynwyd drwy ebost bod CTN yn cario ymlaen i gyfarfod ar y dyddiad yma gan nad ydym wedi cyfarfod ers mis Gorffennaf a bod nifer o'r eitemau angen penderfyniad ar frys.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Catrin Roberts a Janice Evans.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Arfon Hughes – Eitem 14 – Ebost y Cyng. John Brynmor Hughes – Cais am gyfraniad ariannol i Wheely Pete.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 12/07/2022
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cyfyngiadau parcio Lôn Isaf, Morfa Nefyn**
   Penderfyniad: Cytuno hefo'r llinellau melyn dwbwl sydd bob ochor i fynedfa Lôn Groes a mynedfa Ystad Maes Twnti ond gwrthwynebu y llinellau melyn dwbwl sydd o flaen Tan yr Onnen, Rhianfa a Glanrafon ac yn awgrymmu rhoi un set o linellau melyn dwbwl yn lle tri, rhywle yn y canol rhwng Tan yr Onnen a Rhianfa fel man i dynnu fewn fel bod ceir yn cael pasio. Mae'r ceir sydd yn parcio yn y fan yma yn geir i'r trigolion sydd yn byw yn y teras tai ac felly y pryder yw na fydd ganddynt nunlle i barcio os y bydd yr holl linellau melyn yn cael eu rhoi yna.

5. **CCTV Parc y Ddôl â'r broblem sbwriel** (ebost David Entwistle)
   Mae'r eitem CCTV Parc y Ddôl ar yr agenda ers cryn amser bellach ac mae'r aelodau wedi cael amser i feddwl mwy am y mater dros yr haf felly er mwyn dod i benderfyniad cafwyd pleidlais ar y mater. Pleidleisiodd 11 yn erbyn a 1 o blaid felly ni fydd CTN yn rhoi CCTV yn Parc y Ddôl. Derbyniwyd ebost gan David Entwistle, sydd yn mynd o amgylch yn hel sbwriel yn wirfoddol, ynglŷn â'r broblem sbwriel sydd yn yr ardal a cafodd ei roi ar yr agenda er mwyn i'r aelodau gael cyfle i drafod y mater. Mae'r broblem sbwriel yn bodoli ers blynyddoedd ac mae nifer o'r aelodau wedi bod yn hel sbwriel yn wirfoddol pan mae amser yn caniatau ac yn dal i wneud yn rheolaidd ac yn ei wneud oherwydd fod ganddynt falchder yn eu hardal. Gan mai plant sydd yn gyfrifol am greu y broblem sbwriel cafwyd cynnig gan un o'r aelodau bod angen addysgu mwy ar y plant a cydweithio hefo nhw drwy gael sesiynnau addysgol a trefnu gweithdai addysgol ac efallai wedyn y byddent yn meddwl ddwywaith cyn taflu sbwriel. Mae un o'r aelodau wedi bod mewn cysylltiad hefo'r ysgolion

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

lleol ynglŷn â hyn yn gorffennol ac wedi cael ymateb calonogol iawn ac ddigon hapus i fynd ar ôl hyn eto.
Penderfyniad: yr aelod i ail gychwyn trafodaethau hefo'r ysgolion ac ymchwilio mwy i gyd weithio hefo'r plant i geisio datrys y broblem.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Carys Roberts

6. **Arwydd Uwchben Siop Siarad –** dewis logo
Cafwyd cynigion gan un o'r aelodau ar gyfer yr arwydd uwchben Siop Siarad ac mae'r aelodau yn hoffi amryw ohonynt ond cafwyd cynnig gan aelod arall y byddai'n syniad da i ddefnyddio hen arfbais Nefyn ac mae hwnnw gan un o'r aelodau ac mae o am ei anfon i'r aelod sydd wedi paratoi y cynnigion yma iddi hi gael paratoi logo ohonno ar gyfer y pwyllgor nesaf.

7. **Posteri/Map Tref –** Sharon Williams
Mae'r aelod a gododd y mater yma wedi gadael y cyfarfod. Wedi gweld y mapiau ar hysbysfyrddau yn Criccieth mae hi ac yn meddwl y bysai'n syniad da cael rhywbeth tebyg yn Nefyn. Mae'r clerc wedi egluro wrthi bod yr Is-bwyllgor hysbysfyrddau wedi trafod y dyluniad yma yn barod ac yn y broses o roi ceisiadau i fewn i Cyngor Gwynedd i leoli'r hysbysfyrddau yn y tri pentref ac unwaith y bydd hynny wedi cael ei ganiatau yna fe fyddent yn penderfynnu beth i'w roi arnynt ac felly am gadw'r cynnig yma mewn côf. Mae'r clerc am gysylltu hefo'r aelod eto i'w diweddaru ar y mater.

8. **Dyfynbris newydd Cytundeb Mynwent Nefyn**
Mae'r contractwr wedi adolygu'r pris a gyflwynodd nôl yn mis Gorffennaf 2021 sy'n adlewyrchu y cynnydd yng nghostau defnyddiau a tanwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r contractwr i dderbyn y pris newydd ac iddo gychwyn ar y gwaith yn syth.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

9. **Dyfynbrisiau adnewyddu bolardau y Lôn Gam, Nefyn**
Derbyniwyd pris gan ddau gontractwr i adnewyddu bolardau y Lôn Gam, Nefyn.
Penderfyniad: derbyn y pris rhataf a'r clerc i gysylltu hefo'r contractwr i ofyn wrtho gychwyn ar y gwaith cyn gynted a bo'r modd.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

10. **Mainc Nefyn ger y Gôf Golofn –** Gruffydd Williams
Mae un o'r meinciau sydd ar y palmant drost y ffordd i'r Gôf Golofn wedi malu, mae'r concrid wedi pydru ac os yw'r un yma wedi dechrau mynd yna fe fydd y llall siwr o fynd hefyd felly mae angen dwy fainc newydd yna. Cafwyd cynnig gan un o'r aelodau i gael meinciau yr un fath a'r rhai newydd sydd wrth y Gôf Golofn yn yr un lliw.
Penderfyniad: y clerc i archebu 2 fainc newydd yr un fath ar ddwy newydd sydd wrth y Gôf Golofn hefo 'Bolt down kits' ond heb y placiau arnynt.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Carys Roberts
Pasiwyd hefyd i gael yr un person i'w gosod a osododd y rhai wrth y Gôf Golofn ac iddo fynd ar hen feinciau oddi yno yn y broses.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

11. **Mynwent Edern –** Caren Jones
    Mae Capel Edern wedi cau erbyn hyn ac mae un o aelodau Edern yn bryderus am y fynwent a beth fydd yn digwydd iddi o hyn allan o ran y gwaith cynnal a chadw. Yn ystod yr haf derbyniodd gwynion nad oedd y gwellt yn cael ei dorri ac felly 'roedd amryw o deuluoedd yn torri'r gwellt o amgylch bedd y teulu eu hunain. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Un Llais ar y mater ac nid oes gorfodaeth i CTN gymeryd trosodd cynnal a chadw'r fynwent ac felly mae fyny i CTN wneud y penderfyniad os ydynt am wneud neu peidio ond os ydynt am wneud yna dywedodd y clerc fe fydd rhaid cael amcanbrisiau am y gwaith er mwyn ei roi ar gyllideb 2023-2024. Mae yna bwyllgor ar gyfer y fynwent ac mae Michael Massarelli arno fel Trysorydd felly cafwyd cynnig i'r clerc yrru llythyr i Michael Massarelli i ofyn beth yw bwriad y pwyllgor ar gyfer dyfodol y fynwent a bod CTN yn barod i fabwysiadu'r fynwent os ydi'r pwyllgor yn fodlon.
    Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo pwyllgor mynwent Edern i ofyn beth yw bwriad y pwyllgor ar gyfer dyfodol y fynwent a pasiwyd bod CTN yn mabwysiadu'r fynwent os ydi pwyllgor y fynwent yn fodlon.
    Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

12. **Arwyddion 'Ffordd i'r Traeth' –** Arfon Hughes
    Mae un o'r aelodau wedi derbyn cwyn nad oes arwyddion clir i ddangos y ffordd i'r traeth o llwybr Lleiniau yn Nefyn ac os oes posibl rhoi arwyddion bach i fyny yn eu cyfeirio i'r cyfeiriad iawn.
    Penderfyniad: Mae'r aelod lleol am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn os yw hyn yn gyfrifoldeb arnyn nhw ac os nad yw yna y clerc i gysylltu hefo Designer Signs i archebu arwyddion.

13. **Cais Bysus Nefyn –** Arfon Hughes & Clerc
    Mae Bysus Nefyn wedi cysylltu hefo CTN yn dweud eu bod yn bwriadu rhoi ffens diogelwch o amgych yr eiddo gan fod llawer o ddwyn yn ystod y nos. Gan fod y giat bach i'r fynwent rhwng y garej a'r maes parcio cafwyd eglurhad o sut y byddent yn cadw mynediad i'r giat yma ar gyfer y cyhoedd ac fe wnaethant addo gyrru y cynlluniau i'r clerc pan yr oeddent i law. Nid yw'r clerc wedi derbyn y manylion ac felly ni fydd modd trafod y mater nes y bydd copi o'r cynlluniau wedi eu derbyn gan y clerc.

14. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Ebost Cyngor Tref Pwllheli –** Cau Banc Lloyds, Pwllheli.
      Penderfyniad: cefnogi Cyngor Tref Pwllheli a gyrru llythyr o gŵyn i Banc Lloyds.
      Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
    - **Ebost y Cyng. John Brynmor Hughes –** Cais am gyfraniad ariannol i Wheely Pete
      Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £1,000.00 i'r elusen.
      Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Caren Jones

15. **Ceisiadau Cynllunio**
    Dim.

    Ceisiadau Diweddarach
    **C22/0827/42/AM** – Tir ger Lyndale, Lôn Tyn y Mur, Morfa Nefyn – Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl i godi un tŷ deulawr.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad
Cynnig: Gito Williams Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**16. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1116.29
- Nefyn Foods – Rent Siop Siarad - £780.00
- D. M. Parry – Pedwerydd taliad mynwent Morfa Nefyn ac ail daliad mynwent Penniel - £305.00
- Cliff Hughes – Pumed taliad cytundeb llwybrau - £1140.00 & gwaith ychwanegol - £523.56 = £1663.56
- Snowdonia Fire & Protection – Cynnal a chadw'r larwm diogelwch - £118.05
- Cyngor Gwynedd – Ceisiadau i osod Hysbysfyrddau yn Nefyn, Morfa ac Edern - £711.00
- HMRC – PAYE Mis 5 - £119.24

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

**17. Taliadau wedi eu derbyn**

- G W Parry – angladd Robert Jones Evans - £680.00
- Henry Jones – angladd John Griffiths - £1000.00
- G D Roberts – angladd Christopher Thomas Jordan - £1250.00

Cafwyd cais gan aelod lleol Nefyn i'r clerc gysylltu hefo Felin Fach i weld os ydynt wedi rhoi cais am grant i gael ffenestri newydd i fewn eto gan ei fod wedi derbyn dau bris gan gontractwyr lleol.

Cafwyd cais hefyd gan un o aelodau Nefyn i gynnal cyfarfodydd CTN o fis nesaf ymlaen wyneb yn wyneb yn Siop Siarad ond oherwydd y rheolau yn dilyn Covid mae'n ofynnol arnom i gynnal cyfarfodydd Hybrid sef cyfarfod wyneb yn wyneb i'r rhai sydd yn dymuno gwneud hynny ond dal i gynnig cyfarfod drwy zoom i'r gweddill. Mae'r clerc am yrru ebost i bawb i weld pa ffordd y maent yn dymuno mynychu'r cyfarfod o hyn allan er mwyn gwneud trefniadau cyn y pwyllgor nesaf.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298